




I ddechrau, gwnewch yn siŵr fod eich gosodiadau technegol yn iawn...

Yna, byddwch yn garedig — meddyliwch am bobl eraill...

DEFNYDDIWC CHROME NEU FIREFOX FEL EICH PORWR GWE

I gael y profiad gorau ar Collaborate, defnyddiwch Google Chrome ar Windows neu Mozilla Firefox ar MacOS; a chofiwch osod y diweddariadau ar eu cyfer yn rheolaidd.

1



A

YMUWCH YN GYNNAR

Gallwch ddefnyddio'r amser yma i wirio a oes unrhyw broblemau, ac os bydd angen cymorth arnoch, bydd modd datrys y problemau yn gynnar cyn i'r sesiwn ddechrau.

EWCH YN NES AT EICH LLWYBRYDD DI-WIFR

Os ydych chi'n defnyddio cysylltiad di-wifr, bydd symud yn nes at eich llwybrydd yn rhoi signal cryfach a mwy dibynadwy i chi.

2



B

DEFNYDDIWC GLUSTFFONAU

Torrwch i lawr ar y sŵn cefndir drwy defnyddio clustffonau.

CAEWCH Y RHAGLENNI ERAILL

Caewch bob rhaglen a gwasanaeth ffrydio ar eich cyfrifiadur, heblaw'r porwr gwe rydych chi'n ei ddefnyddio ar gyfer y sesiwn Collaborate.

3



C

CADWCH EICH MEICROFFON WEDI'I DDIFFODD

Heblaw pan fyddwch chi'n siarad, yn enwedig mewn grwpiau mawr. Mae trafodaethau'n mynd yn heriol os bydd sŵn yn y cefndir.

GALLUOGWCH FYNEDIAD AT EICH MEICROFFON A'CH GWE-GAMERA

Bydd angen i chi sicrhau bod gosodiadau'ch porwr gwe yn caniatáu mynediad at eich gwe-gamera a'ch meicroffon.

4



D


CODWCH EICH LLAW

Defnyddiwch y botwm codi llaw pan fyddwch eisiau dweud rhywbeth neu ofyn cwestiwn. Yna arhoswch i bwy bynnag sy'n siarad orffen cyn dechrau siarad eich hunan. Mae hyn yn helpu i wneud yn siŵr nad yw pobl yn siarad ar draws ei gilydd.

CYFYNGWCH DDEFNYDD O FIDEO

Peidiwch â defnyddio fideo yn ystod y sesiwn heblaw pan fo angen. Mae llawer o ffrydio fideo yn golygu profiad arafdrwm i'r cyfranogwyr sydd â chysylltiad band eang arafach.

5



E

CYFLWYNWCH EICH HUNAN

Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd pawb yn nabod eich llais yn awtomatig. Nodwch eich enw y troeon cyntaf i chi siarad.

DEFNYDDIWC Y CYFLEUSTER 'SGWRSIO GYDA PHAWB'

Mae'r cyfranogwyr hefyd yn gallu defnyddio'r cyfleuster 'sgwrsio testun gyda phawb' er mwyn gofyn ac ateb cwestiynau, heb dorri ar draws y siaradwyr. Noder: Os bydd sesiwn yn cael ei recordio, mae'r sgwrs destun yn cael ei recordio hefyd.

Cofiwch:

Gall unrhyw sesiwn gael ei recordio. Bwriad recordiad yw cipio cynnwys y sesiwn honno. Os hoffech chi aros yn anhysbys yn ystod recordiad o sesiwn, rhowch wybod i'r darlithydd.

1. Gellir defnyddio'r recordiadau yma at ddibenion dysgu ac addysgu ar gyfer myfyrwyr presennol a'r dyfodol, a fyddan nhw ddim yn cael eu rhannu y tu allan i'r brifysgol.

2. Gwybodaeth prosesu teg/preifatrwydd y Brifysgol:
<https://uso.southwales.ac.uk/swyddfa-y-sgrifennydd-y-brifysgol/Yr-Uned-Cydymffurfiaeth/diogelu-data>



F